

**Ymateb Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor
Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 'Gwneud i'r economi
weithio i'r rheini sydd ag incwm isel'.**

Gorffennaf 2018

Nodir isod yr ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad:

Argymhelliad 1

Rydym yn argymhell yn gryf bod strategaeth glir ar gyfer trechu tlodi yn cael ei chyhoeddi, un sy'n dwyn ynghyd yr elfennau niferus o waith i leihau tlodi i helpu i ddarparu cyfeiriad clir ac i helpu'r Cynulliad i graffu ar ddull y Llywodraeth. Dylai'r strategaeth gynnwys dangosyddion perfformiad clir i sicrhau rheoli perfformiad effeithiol, yn ogystal â nodi sail dystiolaeth ehangach i helpu i ategu gwerthusiad effeithiol o wahanol ddulliau o drechu tlodi.

Ymateb: Gwrthod

Mae ein strategaeth genedlaethol *Ffyniant i Bawb* yn darparu'r fframwaith ar gyfer ein dull trawslywodraeth i gynyddu ffyniant a mynd i'r afael â gwir achos tlodi mewn ffordd fwy effeithiol a chydgyssylltiedig.

Rydym am osgoi strategaethau ar wahân nad ydynt yn mynd i'r afael â materion cymhleth mewn modd cyfannol. Dim ond trwy gydgyssylltu popeth a wnawn y gallwn ni ymateb yn effeithiol i'r her hirdymor o drechu tlodi.

O ran mesur cynnydd, bydd y Dangosyddion Cenedlaethol sy'n sail i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn helpu i fesur ein cynnydd fel cenedl o ran cyrraedd y saith nod llesiant.

Bydd llawer o'r dangosyddion hyn yn ein helpu i asesu'r cynnydd o ran trechu tlodi. Er enghraifft, byddant yn mesur tlodi perthynol, amddifadedd sylweddol, lefelau cyflogaeth a ffyrdd iach o fyw ymhlith eraill.

Goblygiadau ariannol

Does dim goblygiadau ariannol ychwanegol yn sgil yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 2

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu cynllun gweithredu unigol, cydgysylltiedig, i gyflawni'r camau a nodir yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi a'r Cynllun Cyflogadwyedd. Dylai hyn gynnwys set o ddangosyddion y gellir mesur cynnydd y Llywodraeth yn eu herbyn wrth gyflawni ei hamcanion allweddol, a dylid eu cyhoeddi erbyn diwedd 2018, gyda diweddariadau blynyddol wedi hynny.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydym wedi datblygu'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi a'r Cynllun Cyflogadwyedd yng nghyd-destun Ffyniant i Bawb, y strategaeth genedlaethol gyffredinol. Nawr, rydym yn canolbwyntio ar gyflawni ein hymrwymyiadau a byddwn yn parhau i ystyried y dulliau gorau posib o reoli ac adrodd ar y ddarpariaeth yn y

meysydd gwaith hyn sydd wedi'u cysoni'n agos. Mae'r gwaith adrodd hwn yn digwydd o fewn cyd-destun Ffyniant i Bawb a'r dangosyddion llesiant cenedlaethol sy'n darparu fframwaith clir a chyson ledled y Llywodraeth. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad cynnydd ar y Cynllun Cyflogadwyedd ym mis Medi.

Goblygiadau ariannol

Does dim goblygiadau ariannol ychwanegol yn sgil yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 3

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn:

- nodi'n glir y canlyniadau y mae'n disgwyl i fusnesau y dyfernir cyllid iddynt drwy'r Gronfa Dyfodol yr Economi eu cyflawni
- esbonio sut y caiff canlyniadau eu mesur, a
- datblygu gweithdrefnau monitro cadarn i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Contract Economaidd.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Meysydd Gweithredu y Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn cyflwyno'r canlyniadau y disgwyliwn i fusnesau sy'n cael cyllid trwy Gronfa Dyfodol yr Economi, eu cyflawni.

Mae yna wahaniaeth rhwng y Contract Economaidd a'r Meysydd Gweithredu. Cam cyn-cymhwysu yw'r Contract Economaidd i bob pwrpas. Os na fydd busnesau yn bodloni gofynion y Contract Economaidd, ni fyddant yn cael cyfle i gamu ymlaen i'r broses ymgeisio.

Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y Meysydd Gweithredu a'r cais am arian. Bydd y Meysydd Gweithredu hyn yn cael eu monitro'n drylwyr fel rhan o amodau'r cymorth, gan gynnwys ystyriaethau adfachu'r arian os na lwyddir i fodloni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt.

Goblygiadau ariannol

Does dim goblygiadau ariannol ychwanegol yn sgil yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 4

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir y canlyniadau posibl i fusnesau os na fyddant yn cydymffurfio â'r Contract Economaidd. Mewn achosion lle nad yw busnesau yn cydymffurfio â gofynion y Contract Economaidd, ac nad ydynt yn derbyn cymorth i fodloni'r gofynion hyn, dylai sancsiynau posibl gynnwys gwell trefniadau monitro, rhoi cyhoeddusrwydd i achosion difrifol o ddiffyg cydymffurfio lle mae budd cyhoeddus yn sgil gwneud hynny, atal cyllid, ac yn y pen draw adfachu cyllid.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn nodi'n glir bod rhaid i fusnesau fodloni'r Contract Economaidd cyn y byddwn yn ystyried cynnig unrhyw fuddsoddiad.

Os nad yw busnes yn gallu bodloni'r Contract Economaidd, ni fydd yn cael cyfle i fwrw ymlaen â chynnig buddsoddiad gyda ni.

Cam cyn-cymhwyso yw'r Contract Economaidd i bob pwrpas. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y Meysydd Gweithredu a'r cais am arian, a'r camau tuag at hyn fydd yn cael eu monitro'n drylwyr, gan gynnwys ystyriaethau adfachu'r arian os na lwyddir i fodloni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt.

Goblygiadau ariannol

Does dim goblygiadau ariannol ychwanegol yn sgil yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 5

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Prif Swyddogion Rhanbarthol i sicrhau bod y cynlluniau busnes rhanbarthol yn ystyried y gwahaniaethau o fewn rhanbarthau, gan nodi'r camau a fydd yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac a fydd o fudd i'r rheini sydd ar yr incwm isaf o fewn rhanbarthau.

Ymateb: Derbyn

Mae ein Prif Swyddogion Rhanbarthol eisoes mewn trafodaethau â rhanddeiliaid allweddol yn eu rhanbarthau a byddant yn gweithio i ddatblygu cynlluniau a fydd yn nodi sut y gall pob rhanbarth elwa i'r eithaf ar ei gryfderau a'i gyfleoedd. Bydd yn cyd-fynd ag amcanion cyffredinol y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, er mwyn codi lefelau cyfoeth a llesiant a lleihau anghydraddoldebau yn y ddau faes.

Goblygiadau ariannol

Does dim goblygiadau ariannol ychwanegol yn sgil yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 6

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei Strategaeth Leoli i sicrhau bod swyddi'r sector cyhoeddus yn cael eu lledaenu'n well ledled Cymru, ac yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig. Dylai hyn gynnwys nodi sut y bydd y dull gweithredu hwn yn denu ac yn adleoli swyddi i'r hybiau strategol yng Nghymoedd y De, ac i rannau eraill o Gymru, yn arbennig yr ardaloedd hynny yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a fydd yn colli Cyllid Strwythurol yr UE.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae'r Strategaeth Leoli yn cyd-fynd â'n Rhaglen Lywodraethu, Symud Cymru Ymlaen yn ogystal â'n strategaeth genedlaethol, *Ffyniant i Bawb*, a'r nod o sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol posib o ystâd weinyddol Llywodraeth Cymru.

Mae ein hystâd wasgaredig eisoes yn ceisio cyfrannu'n uniongyrchol at strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru a'i Chynllun Gweithredu ar yr Economi trwy gefnogi swyddi rhanbarthol a lledaenu cyfleoedd a buddion economaidd gan ddarparu gwasanaethau effeithiol ar hyd a lled Cymru. Bydd y Strategaeth Leol yn parhau ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leoli ledled Cymru.

Goblygiadau ariannol

Does dim goblygiadau ariannol ychwanegol yn sgil yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 7

Rydym yn argymhell bod cynlluniau galluogi Llywodraeth Cymru ar gyfer y pedwar sector sylfaen yn cynnwys amlinelliad clir o'r gwelliannau i dâl, sicrwydd swyddi a hyfforddiant sy'n ofynnol ganddi yn gyfnewid am y cymorth ehangach y bydd yn ei ddarparu i'r sectorau.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydym yn ymrwymo i weithio gyda busnesau a rhanddeiliaid eraill yn y Sector Sylfaen i ddatblygu cynlluniau galluogi. Bydd y cynlluniau hyn yn ystyried yr heriau a'r cyfleoedd allweddol i'r sectorau hynny a'r bobl sy'n gweithio ynddynt.

Goblygiadau ariannol

Does dim goblygiadau ariannol ychwanegol yn sgil yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 8

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro pam mae'r sectorau adeiladu, ynni ac iechyd yn cael eu hystyried yn sectorau sylfaen sy'n cael blaenoriaeth o ran buddsoddi ynddynt yn y Cymoedd ond nid mewn rhannau eraill o Gymru.

Ymateb: Derbyn

Mae ein Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn egluro ein rhesymeg dros ddewis y pedwar sector sylfaen sef twristiaeth, bwyd, manwerthu a gofal ledled Cymru. Mae'n cyd-fynd â'r ffordd ranbarthol o weithredu y gall rhai rhannau eraill o Gymru nodi sectorau eraill sydd fwyaf perthnasol iddyn nhw.

Goblygiadau ariannol

Does dim goblygiadau ariannol ychwanegol yn sgil yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 9

Rydym yn argymhell y dylai cynlluniau galluogi Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd y cymorth y mae'n ei darparu i sectorau sylfaen yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau sy'n wynebu'r gweithlu benywaidd yn bennaf.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Gweler yr ateb i argymhelliad 7.

Hefyd, mae'r bwloch cyflog rhwng y rhywiau yn fater a gaiff ei ystyried fel rhan o waith ehangach y Comisiwn Gwaith Teg.

Goblygiadau ariannol

Does dim goblygiadau ariannol ychwanegol yn sgil yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 10

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod Cymru'n Gweithio yn parhau i gasglu data ar ganlyniadau a phrofiadau am o leiaf flwyddyn ar ôl i rywun lwyddo i gael gwaith.

Ymateb: Derbyn mewn eqwyddor

Nod rhaglen newydd Cymru'n Gweithio yw helpu pobl o bob oed i oresgyn rhwystrau ac ennill sgiliau newydd er mwyn cyflawni a chadw swydd gynaliadwy o safon. Rydym yn gwybod y bydd rhai cyflogwyr ac unigolion eisiau cymorth yn y dyddiau cynnar, felly bydd angen i Gontractwyr gefnogi unigolion a chyflogwyr yn ystod camau cychwynol y swydd, a hwyluso'r hyfforddiant swydd er mwyn sicrhau'r cyfle gorau posib i unigolion barhau i weithio. Mae'r model cyllido yn rhoi pwyslais ar wobrwyo canlyniadau cyflogaeth a phontio'n llwyddiannus i fyd gwaith, gyda'r taliad olaf yn cael ei wneud pan fo unigolion wedi dal ati am dri mis. Byddwn yn casglu data tymor hirach ar ganlyniadau'r cyfranogwyr trwy ddata arolwg a thystiolaeth werthusol yn ogystal â gwaith paru data gan ddefnyddio data'r Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau EM lle bo modd.

Goblygiadau ariannol

Does dim goblygiadau ariannol ychwanegol yn sgil yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 11

Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru dreialu cymorth i symud ymlaen yn y gwaith ar gyfer y pedwar sector sylfaen y mae wedi dewis eu blaenoriaethu. Gallai hyn gynnwys meysydd fel cymorth gan gyngor sgiliau neu gyngor ar yrfaedd; a chefnogaeth ar gyfer dealltwriaeth gynyddol o sgiliau trosglwyddadwy a "dysgu wrth weithio" i gynorthwyo pobl sy'n symud ymlaen yn y gwaith o fewn sefydliadau.

Ymateb: Derbyn

Mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (y Ganolfan) yn trefnu symposiwm a thrafodaeth ar 13 Gorffennaf gan gynnwys trafodaeth bord gron o arbenigwyr. Mae'r Ganolfan wedi adolygu'r hyn sy'n rhwystro pobl rhag symud ymlaen mewn gwaith cyflog isel, ac wedi ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ar sut i hyrwyddo cynnydd a datblygiad. Nawr, hoffem brofi ein ffordd o ddysgu, ystyried sut i feithrin y galw a gweithgareddau'r cyflenwyr, a chynnig argymhellion ar sut i gamu ymlaen. Bydd y digwyddiad yn trin a thrafod datblygiad gwaith o fewn pedwar sector yr economi sylfaen sy'n cael y flaenoriaeth yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, ac yn ystyried camau datblygu yn y sectorau cyflogau isel eraill a nodwyd fel rhan o Gynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

Goblygiadau ariannol

Mae digwyddiad mis Gorffennaf yn cael ei ariannu trwy gylch gwaith craidd WCPP ac felly does dim ystyriaethau ariannol ychwanegol i Weinidogion Cymru. Ar hyn o bryd, nid yw cyllidebau isadrannau yn cynllunio ar gyfer unrhyw brosiectau peilot a gaiff eu hargymhell gan y digwyddiad. Bydd angen cyngor Gweinidogion ar gynnigion.

Argymhelliad 12

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chyflogwyr mewn sectorau sylfaen i dreialu "ysgolion gwaith" mewn cwmnïau i wella cyfleoedd i'r gweithlu symud ymlaen yn y gwaith.

Ymateb: Derbyn

Mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (y Ganolfan) yn trefnu symposiwm a thrafodaeth ar 13 Gorffennaf gan gynnwys trafod bord gron o arbenigwyr. Mae'r Ganolfan wedi adolygu'r hyn sy'n rhwystro pobl rhag symud ymlaen mewn gwaith cyflog isel, ac wedi ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ar sut i hyrwyddo cynnydd a datblygiad. Nawr, hoffem brofi ein ffordd o ddysgu, ystyried sut i feithrin gweithgareddau cyflenwad a galw a chynnig argymhellion ar sut i gamu ymlaen. Bydd y digwyddiad yn trin a thrafod datblygiad gwaith o fewn pedwar sector yr economi sylfaen sy'n cael y flaenoriaeth yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, ac yn ystyried camau datblygu yn y sectorau cyflogau isel eraill a nodwyd fel rhan o Gynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. Bydd cyflogwyr o'r sectorau perthnasol yn rhan o'r digwyddiad ac yn rhan o'r broses o lunio argymhellion ar y ffordd ymlaen.

Goblygiadau ariannol

Mae digwyddiad mis Gorffennaf yn cael ei ariannu trwy gylch gwaith craidd WCPP ac felly does dim ystyriaethau ariannol ychwanegol i Weinidogion Cymru. Ar hyn o bryd, nid yw cyllidebau isadrannau yn cynllunio ar gyfer unrhyw brosiectau peilot a gaiff eu hargymhell gan y digwyddiad. Bydd angen cyngor Gweinidogion ar gynigion.

Argymhelliad 13

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i gynnal adolygiad llawn o'r Cod Ymarfer ar Gaffael Moesegol mewn Cadwyni Cyflenwi erbyn 2020 ac yn cymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau a nodir. Dylai'r adolygiad ystyried a ddylid rhoi'r Cod ar sylfaen statudol.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymroi i gwblhau adolygiad ar effeithiolrwydd y Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi ddwy flynedd ar ôl ei lansio, yn ystod gwanwyn 2019. Bydd yn cynnwys ystyried y dulliau cyfredol o fonitro'r defnydd ohono.

Goblygiadau ariannol

Does dim goblygiadau ariannol ychwanegol yn sgil yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 14

Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r gwiriadau ffitrwydd i gaffael arfaethedig i asesu i ba raddau y mae cyrff y sector cyhoeddus yn sicrhau bod busnesau'n cydymffurfio â mentrau cyflogaeth moesegol a budd i'r gymuned.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Bydd canlyniadau'r Adolygiad Caffael sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd yn dylanwadu ar gynlluniau'r dyfodol ar gyfer y rhaglen gwiriadau ffitrwydd.

Goblygiadau ariannol

Does dim goblygiadau ariannol ychwanegol yn sgil yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 15

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r gwiriadau ffitrwydd i gaffael i adolygu'r dull o fonitro arferion cyflogaeth moesegol a pholisïau budd cymunedol. Dylai canfyddiadau adolygiad o'r fath lywio'r gwaith o ddatblygu canllawiau i'r sector cyhoeddus ar fonitro ac adolygu cydymffurfiaeth.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Bydd canlyniadau'r Adolygiad Caffael sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd yn dylanwadu ar gynlluniau'r dyfodol ar gyfer y rhaglen gwiriadau ffitrwydd.

Goblygiadau ariannol

Does dim goblygiadau ariannol ychwanegol yn sgil yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 16

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau â'i gwaith i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio cymalau "budd cydraddoldeb" mewn prosesau caffael, a'r posibilrwydd i ofyn i gontractwyr ddatblygu cynlluniau gweithredu i ddyrchafu menywod yn eu cwmni a'u diwydiant.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Yn dibynnu ar ganlyniad yr Adolygiad Caffael, sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut i hyrwyddo cydraddoldeb trwy gaffael.

Goblygiadau ariannol

Does dim goblygiadau ariannol ychwanegol yn sgil yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 17

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfansoddiad, cylch gorchwyl a manylion cyfarfodydd y Bwrdd Gwaith Teg ar wefan Llywodraeth Cymru ar unwaith. O ran y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyhoeddi canfyddiadau unrhyw waith a wneir gan y Bwrdd, ynghyd â'i ymatebion i argymhellion y Bwrdd.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Sefydlwyd y Bwrdd Gwaith Teg er mwyn cynnal gwaith cwmpasu cychwynnol. Bu'r Bwrdd yn ffynhonnell cyngor da, creadigol a beirniadol er mwyn helpu i brofi syniadau Llywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd wedi gwneud cynnydd cychwynnol da o ran nodi tystiolaeth o fylchau a'r ysgogiadau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru lywio agenda Gwaith Teg.

Y Comisiwn Gwaith Teg fydd yn bwrw ymlaen â'r gwaith o nodi'r dulliau a'r

prosesau o gyflawni canlyniadau gwaith teg - grŵp annibynnol bach a sefydlwyd i bwysu a mesur canlyniadau'r Bwrdd Gwaith Teg a chynghori Llywodraeth Cymru ar gamau gweithredu'r dyfodol. Gellir sicrhau bod manylion am aelodau a chylch gwaith y Bwrdd Gwaith Teg, ac amlinelliad o raglen waith y Bwrdd, ar gael hefyd.

Goblygiadau ariannol

Does dim goblygiadau ariannol ychwanegol yn sgil yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 18

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gosod gofynion ar unrhyw gwmni sy'n cael cymorth gan Lywodraeth Cymru drwy gyllid o dan y Contract Economaidd neu ddull arall i leihau'r defnydd o gontractau dim oriau. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru gynorthwyo sefydliadau i oresgyn unrhyw rwystrau posibl rhag cynnig contractau diogel. Fel isafswm, dylai fod yn rhaid i gwmnïau gynnig opsiwn i weithwyr symud i gontractau diogel ar ôl cyfnod penodol o gyflogaeth, ac awgrymwn y dylai hynny fod yn 3 mis.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Nod y Contract Economaidd yw sbarduno arferion busnes a chyflogaeth mwy cyfrifol, a byddem yn disgwyl i sgysiau â busnesau trwy'r Contract Cyflogaeth drafod y defnydd o gontractau teg a moesegol. Rydym wedi cyflwyno Cod Ymarfer er mwyn pennu arferion cyflogaeth moesegol ymhlith cadwyni cyflenwi, ac wedi paratoi arweiniad i daclo arferion cyflogaeth annheg, gan gynnwys y defnydd annheg o gontractau dim oriau.

Bydd y Comisiwn Gwaith Teg yn ystyried enillion (enillion teg a sicr fesul awr) a'r defnydd o gontractau dim oriau. Bydd yn ystyried argymhellion y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau fel rhan o'i ddadansoddiad arbenigol trylwyr.

Goblygiadau ariannol

Does dim goblygiadau ariannol ychwanegol yn sgil yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 19

Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu ymgyrch eang a phellgyrhaeddol i annog talu'r cyflog byw gwirfoddol yn y sector preifat a chyhoeddus yng Nghymru. Dylai ymgyrch o'r fath dynnu sylw at y budd economaidd i fusnesau a dylai ddathlu'r sefydliadau a'r cwmnïau hynny sydd eisoes yn talu'r cyflog byw gwirfoddol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Bydd camau i hyrwyddo arferion busnes mwy cyfrifol, fel talu'r cyflog byw, yn helpu busnesau i fod yn fwy gwybodus a pharod i gyflogi gweithwyr ar gyflog, amodau a thelerau teg. Rydym yn gweithio gyda'r sectorau sylfaen fel gofal, manwerthu, bwyd a thwristiaeth er mwyn hybu twf a gwerth yn y sectorau hyn gyda'r nod o gefnogi mwy o gyfleoedd i gamu ymlaen ac ennill cyflog gweddus.

Rydym yn cymryd camau amrywiol i hyrwyddo mabwysiadu'r Cyflog Byw i

fusnesau gan gynnwys defnyddio'r dulliau cymorth busnes cyfredol fel Busnes Cymru a'r Rhaglen Cyflymu Twf.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. Mae'r canllaw hwn yn cynnwys deuddeg o ymrwymadau cyflogaeth foesegol mewn meysydd sy'n amrywio o daclo caethwasiaeth fodern i osgoi defnydd annheg o gontractau dim oriau. Mae talu cyflog teg i'ch gweithwyr yn rhan o ofynion cyflogwr moesegol. Mae'r canllawiau'n esbonio sut y gellir defnyddio dulliau caffael i hyrwyddo talu cyflog byw y Sefydliad Cyflog Byw.

Goblygiadau ariannol

Does dim goblygiadau ariannol ychwanegol yn sgil yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 20

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnig cymhellion i dalu'r cyflog byw gwirfoddol wrth ystyried ceisiadau am gymorth ariannol y mae'r Contract Economaidd yn ei gwmpasu. Dylid ystyried hyn yn ofyniad craidd i fusnesau mwy sy'n cyflogi o leiaf 250 o staff.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Nod y Contract Economaidd yw sbarduno arferion busnes a chyflogaeth mwy cyfrifol, a byddem yn disgwyl i sgysiau â busnesau trwy'r Contract Cyflogaeth drafod hyrwyddo'r cyflog byw gwirfoddol. Rydym wedi cyflwyno Cod Ymarfer er mwyn pennu arferion cyflogaeth moesegol ymhlith cadwyni cyflenwi ac wedi paratoi canllawiau ar weithredu'r cyflog byw gwirfoddol trwy gaffael.

Bydd y Comisiwn Gwaith Teg yn ystyried enillion (enillion teg a sicr fesul awr) a'r defnydd o gontractau dim oriau. Bydd yn ystyried argymhellion y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau fel rhan o'i ddadansoddiad arbenigol trylwyr.

Goblygiadau ariannol

Does dim goblygiadau ariannol ychwanegol yn sgil yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 21

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gosod gofyniad ar bob cwmni, gyda rhwng 50-249 o weithwyr, sy'n cael cymorth fel rhan o'r Contract Economaidd i gyhoeddi data ar eu bylchau mewn cyflog rhwng y rhywiau.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Pan edrychodd y Bwrdd Gwaith Teg ar yr ysgogiadau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru weithredu arferion gwaith teg, roedd y mesurau a ystyriwyd er mwyn annog neu gymell y sector preifat i fabwysiadu arferion gwaith teg yn cynnwys cyfle i fynnu gwybodaeth gliriach gan gynnwys gofyn i sefydliadau gyhoeddi manylion eu harferion cyflogaeth e.e. bylchau cyflog rhwng y rhywiau. Bydd y Comisiwn Gwaith Teg yn archwilio hyn yn fanylach.

Goblygiadau ariannol

Does dim goblygiadau ariannol ychwanegol yn sgil yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 22

Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun gweithredu sy'n nodi'r hyn y bydd yn ei wneud i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar ôl i'r Bwrdd Gwaith Teg gyhoeddi ei argymhellion. Dylai'r cynllun gweithredu hwn gynnwys cerrig milltir, targedau a chamau gweithredu clir.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Bydd y Comisiwn Gwaith Teg yn ystyried yr argymhelliad hwn fel rhan o'i broses casglu tystiolaeth.

Goblygiadau ariannol

Does dim goblygiadau ariannol ychwanegol yn sgil yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 23

Rydym yn argymhell, fel rhan o unrhyw ystyriaeth o ddatganoli pwerau ar weinyddu'r Credyd Cynhwysol, bod Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad o'r manteision a'r risgiau.

Ymateb: Gwrthod

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r syniad o ddatganoli budd-daliadau lles na'r gwaith o'u gweinyddu i Gymru. Fel mater o egwyddor, dylai pob un ohonom fod yn gymwys i hawl cyfartal gan ein gwladwriaeth les. Dylid bodloni anghenion dinasyddion y DU, waeth ble maen nhw'n byw, yn gyfartal.

Does gan Lywodraeth yr Alban ddim pwerau dros hyblygrwydd dewisiadau talu ar gyfer hawl wyr Credyd Cynhwysol, trwy Ddeddf yr Alban 2016. Mae Llywodraeth yr Alban wedi gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, ac wedi cyflwyno system 'Scottish Choices' ym mis Hydref 2017. Mae Credyd Cynhwysol yn dal yn nwylo Llywodraeth y DU. Yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n gweinyddu'r Credyd Cynhwysol, ac nid yw'r 'Scottish Choices' hyn ar gael hyd nes y bydd taliad cyntaf y Credyd Cynhwysol wedi'i wneud.

Hoffai Llywodraeth Cymru weld holl hawl wyr Credyd Cynhwysol yn cael dewis gwybodus o ran sut maen nhw'n derbyn eu Credyd Cynhwysol – trwy hyrwyddo trefniadau talu hyblyg. Mae'r rhain yn cynnwys taliadau mwy rheolaidd nag unwaith y mis; talu costau tai yn syth i'r landlord; a rhannu taliadau i rai a fyddai'n hoffi hynny. Mae'r dewisiadau hyn eisoes ar gael fel bo'r angen i rai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yma yng Nghymru, ac felly does dim angen datganoli'r budd-daliadau na'r gwaith o'u gweinyddu.

Mae'r Gweinidog Tai ac Adfywio wedi ysgrifennu dro ar ôl tro at Weinidogion Adran Gwaith a Phensiynau'r DU, yn gofyn iddynt ystyried cynnig y dewisiadau gwybodus hyn i hawl wyr yng Nghymru. Erbyn hyn, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cytuno i sefydlu Bwrdd ar y Cyd â Llywodraeth Cymru er mwyn

ystyried materion gweithredu'r Credyd Cynhwysol.

Goblygiadau ariannol

Does dim goblygiadau ariannol ychwanegol yn sgil yr argymhelliad hwn.